OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 Rhif 1925 (Cy. 288)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Corwen, Sir Ddinbych) (Amrywiol Gyfyngiadau ar Aros) 2015

Gwnaed	*29 Hydref 2015*
Yn dod i rym	*30 Hydref 2015*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) ("Deddf 1984") a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:-

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Hydref 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Corwen, Sir Ddinbych) (Amrywiol Gyfyngiadau ar Aros) 2015.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn –

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur (Cymru) 2000(**2**);

mae i "disg barcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(**3**).

(**1**) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(**2**) O.S. 2000/1786.
(**3**) O.S. 2000/1785.

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos —

(a) bathodyn person anabl yn y lle perthnasol —

(i) yn achos cerbyd ac iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos ar y dangosfwrdd neu'r panel deialau fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd, neu

(ii) yn achos cerbyd nad oes iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod tu blaen y bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(b) disg barcio yn y lle perthnasol —

(i) yn achos cerbyd ac iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r ddisg yn cael ei harddangos ar y dangosfwrdd neu'r panel deialau fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(ii) yn achos cerbyd nad oes iddo ddangosfwrdd neu banel deialau, os yw'r ddisg yn cael ei harddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad a Chyfyngiadau

3. Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 7(1)(a), (c), (d), (e), (f) ac (g), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho na dadlwytho ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 7(1)(a), (c), (d), (e), (f) ac (g), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 7(1)(a), (c), (d), (e), (f) ac (g), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog

6. Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 7(1)(a), (c), (d), (e), (f) ac (g) ac erthygl 7(2), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw un o ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 ar unrhyw adeg rhwng 09:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod o ddydd Llun i ddydd Sul, am gyfnod heb fod yn fwy nag 1 awr mewn unrhyw gyfnod o 2 awr.

7.—(1) Ni fydd dim yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr erthyglau hynny cyhyd ag y gall fod yn angenrheidiol i alluogi —

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono (ac eithrio Erthygl 3);

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn —

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r ffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio, yn y darnau hynny o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i diffinnir yn Neddf Cyfathrebiadau 2003(**1**);

(d) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau hynny o'r gefnffordd neu'n gyfagos ato;

(**1**) 2003 p.21.

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) y cerbyd i stopio pan fydd y person sy'n ei reoli —

(i) yn gorfod stopio yn ôl y gyfraith;

(ii) yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain; neu

(iii) yn cael ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth.

(2) Nid oes dim yn erthygl 6 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i gerbyd person anabl y mae bathodyn person anabl a disg barcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gofalu am y cerbyd, wedi marcio arnynt yr amser pan ddechreuodd y cyfnod aros) yn cael eu harddangos yn y man perthnasol arno aros ar unrhyw un o ymylon y darnau o'r gefnffordd y cyfeirir atynt yn yr erthygl honno rhwng 09:00 a 18:00 o'r gloch am gyfnod nad yw'n fwy nag 1 awr, sef cyfnod y bydd ysbaid o un awr o leiaf rhyngddo a chyfnod blaenorol pan fu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod.

Dirymu

8. Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Amrywiol Ffyrdd, Corwen, Clwyd) (Gwahardd Aros) 1985**(5)** drwy hyn wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 29 Hydref 2015

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

Darnau o Gefnffordd yr A5 yng Nghorwen yn Sir Ddinbych.

ATODLEN 1

GWAHARDD AROS, llwytho neu ddadlwytho ar unrhyw adeg

1. Ochr ogleddol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain yn gyffredinol o bwynt 13 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Green Lane hyd at bwynt 8 metr ar hyd Green Lane.

2. Ochr ogleddol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 15 metr i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â Green Lane hyd at bwynt 8 metr ar hyd Green Lane, i'r gogledd o'r gyffordd a enwyd.

ATODLEN 2

GWAHARDD AROS ar unrhyw adeg

1. Ochr ddeheuol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 60 metr i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 27 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages.

2. Ochr ogleddol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 60 metr i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 32 metr i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â Green Lane.

3. Ochr ddeheuol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 50 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 95 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages.

4. Ochr ddeheuol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 128 metr i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 293 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages.

5. Ochr ddeheuol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 65 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Green

6. Ochr ogleddol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 65 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Green Lane hyd at bwynt 469 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Green Lane.

7. Ochr ddeheuol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 197 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Green Lane hyd at bwynt 469 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Green Lane.

ATODLEN 3

CYFYNGU AR AROS RHWNG 09:00 O'R GLOCH A 18:00 O'R GLOCH I 60 MUNUD MEWN UNRHYW GYFNOD O 2 AWR

1. Ochr ddeheuol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 27 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 50 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages.

2. Ochr ogleddol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 32 metr i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â Green Lane hyd at bwynt 20 metr i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â Green Lane.

3. Ochr ddeheuol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 138 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Green Lane hyd at bwynt 197 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Green Lane.

4. Ochr ogleddol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 13 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Green Lane hyd at bwynt 27 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Green Lane.

5. Ochr ddeheuol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 95 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages hyd at bwynt 128 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r lôn sy'n arwain at Brookside Cottages.

ATODLEN 4

DEILIAID BATHODYN PERSON ANABL YN UNIG RHWNG 09.00 A 18.00 AR UNRHYW DDIWRNOD O DDYDD LLUN I DDYDD SUL, WEDI EI GYFYNGU I 60 MUNUD MEWN UNRHYW GYFNOD O 2 AWR

1. Ochr ogleddol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 20 metr i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â Green Lane hyd at bwynt 15 metr i'r dwyrain o ganol ei chyffordd â Green Lane.

2. Ochr ogleddol y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol o bwynt 27 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Green Lane hyd at bwynt 32 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â Green Lane.